# Y CYNLLUN DIRPRWYO

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun dirprwyo lle mae wedi dirprwyo pwerau i swyddogion i benderfynu ynghylch y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio a chyflwyniadau cynllunio cysylltiedig eraill. Mae'r Comisiwn Archwilio wedi cynghori y dylai 90% o'r holl geisiadau cynllunio gael eu penderfynu dan bwerau wedi'u dirprwyo. Mae'r Awdurdod hwn bellach yn penderfynu ynghylch mwy na 90% o'r holl geisiadau a dderbynnir dan drefniadau pwerau wedi'u dirprwyo.

Dylai ceisiadau a dderbynnir ac yr ymdrinnir â hwy gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu fod fel a ganlyn:-

a) cais sy'n groes i ddarpariaethau cynllun datblygu cymeradwy, ac yr argymhellir ei gymeradwyo, neu gais sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau mewn cynllun datblygu cymeradwy, ond yr argymhellir ei wrthod serch hynny.

b) [i] cais y mae ymgynghorai statudol wedi cyflwyno gwrthwynebiad cynllunio perthnasol iddo'n ysgrifenedig/yn electronig o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig ac nad yw wedi cael ei ddatrys trwy drafodaeth na thrwy osod amodau ac yr argymhellir ei gymeradwyo.

   [ii] cais y mae Cyngor Tref/Cymuned wedi cyflwyno gwrthwynebiad cynllunio perthnasol iddo'n ysgrifenedig/yn electronig o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig ac nad yw wedi cael ei ddatrys trwy drafodaeth na thrwy osod amodau ac yr argymhellir ei gymeradwyo a lle derbyniwyd gwrthwynebiadau eraill i'r cynnig. Os na cheir gwrthwynebiadau eraill, bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, gan ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, yn penderfynu ynghylch perthnasedd y gwrthwynebiad i'r asesiad o'r cais a pha un a ddylid cyflwyno adroddiad ar y cais i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

c) cais y mae Aelod lleol yn gofyn yn ffurfiol iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu trwy hysbysu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau yn ysgrifenedig/yn electronig (o fewn 21 niwrnod i ddosbarthu manylion y cais) ynghylch y rhesymau cynllunio perthnasol pam fod y Cynghorydd yn ystyried y dylai'r cais gael ei ystyried gan y Pwyllgor oni bai (i) y byddai penderfyniad dan y cynllun dirprwyo'n gyson â safbwyntiau'r Aelod neu (ii) nad oes unrhyw wrthwynebiad arall wedi dod i law o fewn y cyfnod ymgynghori/cyhoeddi ac nad yw Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu'n ystyried ei bod yn angenrheidiol cyflwyno adroddiad ar y cais i'r Pwyllgor.

d) Cais deiliad tŷ y mae mwy na dau gymydog wedi cyflwyno gwrthwynebiad cynllunio perthnasol mewn perthynas ag ef yn ysgrifenedig/yn electronig o fewn y cyfnod ymgynghori a nodir neu unrhyw gais arall y mae mwy na phedwar gwrthwynebydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad cynllunio perthnasol yn ysgrifenedig/yn electronig o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig, nad yw wedi'i ddatrys drwy gyd-drafod neu drwy osod amodau, ac yr argymhellir ei gymeradwyo. Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn penderfynu a ddylid trin gwrthwynebiadau gan aelodau o'r un aelwyd fel gwrthwynebiad un cymydog.

e) cais a gyflwynwyd gan neu ar ran Cynghorydd, unrhyw aelod o staff Gwasanaethau Datblygu neu Briffyrdd y Cyngor sy'n rhan o brosesu/gwneud sylwadau ar geisiadau, unrhyw un o Brif Swyddogion yr Awdurdod neu unrhyw swyddog sy'n uniongyrchol atebol i Brif Swyddog (neu briod neu bartner unrhyw un o'r rhain) os oes gwrthwynebiad cynllunio perthnasol wedi dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori penodedig.

f) cais a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau os oes gwrthwynebiad cynllunio perthnasol wedi dod i law o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig.

g) cais y mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau yn ystyried y dylid ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer penderfyniad gan gynnwys y rheiny sydd ym marn y Cyfarwyddwr o bosib yn ddadleuol, yn debygol o fod o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd neu a allai gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.

Cafodd y Cynllun Dirprwyo ei ddiweddaru ddiwethaf Mai 2022.